Dadansoddiad

Er bod adrannau'r ffyrdd wedi cael ychydig o alw am gerdded, teithio ar olwynion a beicio, maent wedi gweithredu ar derfyn cyflymder 30mya yn flaenorol heb unrhyw bryderon, gan arddangos eu bod wedi gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol ar y cyflymder hwn.

Nid oes ganddynt 20 neu fwy o eiddo preswyl neu fasnachol yn uniongyrchol wrth y ffordd. Mae yna 3. Nid oes unrhyw gyfleusterau addysgol, cymunedol neu feddygol o fewn 100 metr a fyddai'n hwyluso terfyn cyflymder is. Mae'r llwybr yn elwa o ddarpariaeth llwybr troed parhaus ac addas. O ganlyniad, yn seiliedig ar y ffactorau hyn, mae terfyn cyflymder 30mya yn addas ar gyfer yr adran.

Yn ogystal â hynny, mae'r ffyrdd eisoes wedi gweithredu gyda therfyn cyflymder 30mya heb unrhyw faterion a adroddwyd, ac un cofnod o ddamwain o fewn 3 blynedd, gan arddangos eu bod wedi gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol ar y cyflymder hwnnw. Gan ystyried y ffactorau hyn, byddai adsefydlu terfyn cyflymder 30mya yn helpu gyda chynnal cludiant effeithiol, gan barhau i sicrhau diogelwch defnyddiwr.

Meini prawf

O ran meini prawf 'lle', gellid defnyddio terfynau 30mya ar y canlynol:

a. prif ffyrdd neu ffyrdd strategol y tu allan i ganol dinasoedd / trefi / pentrefi neu brif strydoedd

b. ffyrdd y tu allan i ardaloedd dwysedd uchel ac i ffwrdd oddi wrth leoedd eraill sy'n denu teithiau aml gan gerddwyr a / neu feicwyr.

c. ffyrdd gyda dwysedd tai isel iawn a / neu nifer bach iawn o dai at ei gilydd (llai nag 20 eiddo fesul km)

d. ffyrdd sydd â safleoedd preswyl a manwerthu'n unig ar un ochr ac nad oes angen croesi'r ffordd i gyrraedd gwasanaethau na chyfleusterau (neu os oes croesfannau diogel ar gael neu'n cael eu darparu yn unol â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol).

Dadansoddiad

Mae'r adrannau a nodwyd o ffyrdd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer terfyn cyflymder 30mya. Mae nhw'n ffyrdd eiddo diwydiannol y tu allan i'r dref gyda 3 eiddo preswyl neu fasnachol sy'n wynebu'r ffordd. Mae'r terfyn cyflymder uwch yn addas o wybod swyddogaeth y ffordd. Yn ychwanegol at hynny, mae'r meini prawf yn nodi y gellir defnyddio terfynau cyflymder 30mya ar briffyrdd tu allan i ardaloedd o ddwysedd uchel gyda gweithgarwch cerddwyr a beicwyr rheolaidd.

Ymhellach i hynny, roeddent yn gweithredu'n flaenorol gyda therfyn cyflymder 30mya heb faterion a adroddwyd, gan arddangos eu bod wedi gweithredu'n ddiogel ac effeithiol ar y cyflymder hwnnw. Gan ystyried y ffactorau hyn, byddai adsefydlu terfyn cyflymder 30mya yn cynnal cludiant effeithiol gan barhau i sicrhau diogelwch defnyddiwr.

c. lle mae'r ffordd wedi ei dylunio er mwyn sicrhau bod geometreg a nodweddion priffyrdd yn cefnogi cyflymder diogel uwch o 30mya.

<u>Dadansoddiad</u>

Mae'r adrannau o ffyrdd a nodwyd yn bodloni'r meini prawf symud ar gyfer terfyn cyflymder 30mya yn seiliedig ar nodweddion y ffordd. Mae beicwyr wedi defnyddio'r ffordd ar ei ffurf bresennol pan roeddent yn gweithredu'n flaenorol ar 30mya heb broblemau. Roeddent yn gweithredu'n flaenorol gyda therfyn cyflymder 30mya heb faterion a adroddwyd, gan arddangos eu bod yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol ar y cyflymder hwnnw. Gan ystyried y ffactorau hyn, byddai adsefydlu'r terfyn cyflymder 30mya yn helpu i gynnal cludiant effeithlon gan barhau i sicrhau diogelwch defnyddiwr.

Mae'r ffyrdd uchod wedi cael eu nodi fel eu bod yn diwallu'r gofynion (drwy broses asesu yn ystyried y canllawiau diwygiedig a dyletswyddau statudol yr Awdurdod) i newid y terfyn cyflymder yn ôl i 30mya. Mae'r buddion posib yn gorbwyso'r anfanteision posib o godi terfyn cyflymder.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig dydd Gwener, 08 Mai 2026

Katie Wilby, Prif Swyddog Cyngor Sir y Fflint (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth), Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, Yr Wyddgrug. CH7 6LG.



